Rhan 5.5 - Protocol ynghylch cysylltiadau rhwng aelodau a swyddogion

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r protocol hwn yn adlewyrchu argymhellion y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus mewn perthynas â safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol. Yn arbennig, argymhellodd y Pwyllgor bod pob awdurdod lleol yn mabwysiadu Côd Ymddygiad ysgrifenedig ar gyfer ei aelodau a'i swyddogion. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Côd Ymddygiad ar wahân ar gyfer yr aelodau a'r swyddogion sy'n ymgorffori darpariaethau gorfodol y rheoliadau a luniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

1.2 Dylid darllen a defnyddio 'r protocol hwn ochr yn ochr â'r Codau Ymddygiad hyn. Mae'r egwyddorion a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y protocol hwn wedi'u sefydlu eisoes i raddau helaeth ac yn sylfaen i drefniadau gwaith y Cyngor. Pwrpas y protocol hwn yw cynnig cyfarwyddyd ar drefniadau gwaith rhwng aelodau a swyddogion, yn enwedig os oes amheuaeth neu anhawster yn codi.

1.3 Yn arbennig, mae'r protocol yn anelu at gynnal gwelliannau mewn democratiaeth leol drwy:-

1.3.1 Hwyluso cyfranogaeth aelodau a swyddogion ym mhrosesau democrataidd y Cyngor;

1.3.2 Cynorthwyo'r aelodau a'r swyddogion sy'n eu cynnal, yn eu rôl o gynrychioli'r gymuned, o fewn y Cyngor a'r tu allan; a

1.3.3 Chrisialu'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth a chymorth i aelodau a'u grwpiau gwleidyddol.

1.4 Bwriad arall y protocol hwn yw cynorthwyo aelodau a swyddogion i gynnal y safonau uchaf o ran gonestrwydd a gwedduster a sicrhau bod pobl eraill yn gweld bod eu holl weithredoedd yn briodol, yn deg a, lle bo modd, yn agored.

1.5 Mae'r detholiad canlynol o godau ymddygiad yr aelodau a'r swyddogion yn berthnasol:

1.5.1 Mae'n rhaid i'r aelodau beidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, gallu gweithwyr cyflogedig yr awdurdod i fod yn ddiduedd.

1.5.2 Mae parch y cynghorwyr a'r gweithwyr at ei gilydd yn hanfodol bwysig ar gyfer llywodraeth leol dda a dylai pob cydberthynas waith fod yn broffesiynol.

1.5.3 Dylai gweithwyr cyflog ddelio â'r cyhoedd, yr aelodau a gweithwyr eraill â chydymdeimlad, yn effeithlon ac yn ddiduedd.

1.6 Yn unol â chyfeiriad y côd at y parch hwn, y mae'n bwysig fod trafodion gydag Aelodau a Swyddogion yn cynnal safonau rhesymol o gwrteisi a pharch gan y naill at y llall, ac ni ddylai'r naill na'r llall geisio cymryd mantais annheg o'u sefyllfa o dan unrhyw amgylchiadau.

2. CYFATHREBU RHWNG AELODAU A SWYDDOGION

2.1 Dylai Aelodau gyfathrebu gyda swyddogion ar y lefel briodol a fydd fel arfer yn cynnwys y Cyfarwyddwr priodol, y Pennaeth Gwasanaethau neu uwch reolwyr eraill.

2.2 Wrth gysylltu ag aelodau, dylai'r swyddogion roi ystyriaeth i ofynion y protocol hwn a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan reolwyr yr adran.

CYNGOR GAN SWYDDOG AR GYFER GRWPIAU GWLEIDYDDOL

3.1 Mae cydnabyddiaeth statudol i grwpiau gwleidyddol ac y mae'n arfer gyffredin i'r cyfryw grwpiau roi ystyriaeth ragbaratoawl i eitemau o fusnes y Cyngor cyn i'r cyfryw faterion gael eu hystyried gan y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol neu'r Pwyllgor perthnasol. Mae'n bosibl y bydd swyddogion yn cael eu galw i gynorthwyo a chyfrannu i drafodion y grwpiau gwleidyddol.

3.2 Gall swyddogion gynnig cymorth ar sawl ffurf yn amrywio o gyfarfod paratoi gyda Chadeirydd neu Lefarydd cyn cyfarfod y Cyngor, Bwrdd Gweithredol neu Bwyllgor, i gyflwyniad ger bron cyfarfod o'r grŵp gwleidyddol llawn. Yn ymarferol, y mae'n debyg mai'r grŵp neu grwpiau gwleidyddol sy'n rheoli'r Cyngor fydd yn gofyn fwyaf am y cymorth hwn gan swyddogion ond y mae'r math hwn o gymorth ar gael i bob grŵp gwleidyddol.

3.3 Fodd bynnag rhaid i bawb sy'n cymryd rhan yn y math hwn o broses, yn aelodau ac yn swyddogion, ddeall rhai pwyntiau penodol yn arbennig. Yn arbennig:

3.3.1 O dan yr amgylchiadau ni chaiff cymorth y swyddogion fynd ymhellach na chynnig gwybodaeth a chyngor ar faterion sy'n rhan o fusnes y Cyngor. Ni chaiff swyddogion gynnig cyngor ar faterion yn ymwneud â busnes y grŵp gwleidyddol. Bydd yn haws gwahaniaethu rhwng y ddau drwy beidio â disgwyl i swyddogion fod yn bresennol mewn cyfarfodydd neu rannau o gyfarfodydd pan drafodir busnes gwleidyddol.

3.3.2 Er bod cyfarfodydd y grwpiau gwleidyddol yn rhan o'r rhagymadrodd i benderfyniadau'r Cyngor, nid oes ganddynt y pŵer i wneud penderfyniadau ar ran y Cyngor. Felly nid yw casgliadau'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cyfrif fel penderfyniadau'r Cyngor ac y mae'n hanfodol bwysig nad ydynt yn cael eu cyfleu (y tu mewn neu'r tu allan i'r corff), na'u dehongli ac ni ddylid gweithredu arnynt fel pe bai statws swyddogol iddynt.

3.3.3 Felly hefyd, pan fo swyddogion yn cynnig gwybodaeth a chyngor mewn cyfarfod o grŵp gwleidyddol ar fater sy'n rhan o fusnes y Cyngor, ni all hyn gymryd lle darparu'r holl wybodaeth a'r cyngor angenrheidiol i'r Bwrdd Gweithredol neu i'r Pwyllgor perthnasol pan gaiff y mater dan sylw ei ystyried.

3.3.4 Ni fydd swyddogion yn rhoi gwybodaeth a chyngor i gyfarfod o grŵp gwleidyddol sy'n cynnwys unigolion nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor. Ni fydd y personau hyn yn ymrwymo i Gôd Ymddygiad yr Aelodau (yn arbennig, y rhannau sy'n ymwneud â datgelu buddiannau a chyfrinachedd) ac am y rheswm yma a rhesymau eraill hwyrach na fydd swyddogion yn medru cynnig yr un lefel o wybodaeth a chyngor ag y byddent mewn cyfarfod i aelodau yn unig.

3.3.5 Rhaid i swyddogion barchu cyfrinachedd trafodaethau'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y cyfarfodydd hyn ac, yn arbennig, ni ddylent ailadrodd cynnwys y cyfryw drafodaeth wrth grŵp gwleidyddol arall.

3.3.6 Os bydd cais i swyddog fynychu cyfarfod a drefnir gan blaid neu grŵp gwleidyddol er mwyn cyflwyno gwybodaeth (ee mewn cysylltiad â mater neu argymhelliad sy'n effeithio ar neu'n ymwneud â'r Cyngor) dylid ei gyfeirio at y Prif Weithredwr drwy gyfrwng Arweinydd y grŵp/plaid berthnasol. Bydd swyddog sy'n mynychu'r cyfryw gyfarfod yn gwneud hynny yn rhinwedd ei swydd, yn wleidyddol ddiduedd ac ni fydd ei bresenoldeb yn awgrymu ei fod yn cefnogi barn wleidyddol, argymhelliad nag ymateb penodol. Yn gyffredinol, dylid osgoi mynychu'r cyfryw gyfarfodydd yn y cyfnod rhwng cyhoeddi a diweddglo etholiad lleol neu seneddol sy'n effeithio ar yr ardal dan sylw.

3.3.7 Mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan grŵp gwleidyddol, neu gan Aelod unigol (yn hytrach na chan y Cyngor), bydd swyddogion yn bresennol er mwyn darparu gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. Yn gyffredinol bydd swyddogion yn osgoi mynychu'r cyfryw gyfarfodydd yn ystod cyfnod "cyn-etholiad" (rhwng cyhoeddi a diweddglo etholiad lleol neu seneddol sy'n effeithio ar yr ardal). Os bydd anawsterau neu ansicrwydd penodol ynghylch cyngor gan swyddogion i grwpiau gwleidyddol, dylid codi'r mater gyda'r Prif Weithredwr neu'r Swyddog Monitro a fydd yn eu trafod, lle bo'n briodol, gyda'r Arweinydd/Arweinyddion Grŵp perthnasol.

4. GWASANAETHAU A CHYFLEUSTERAU CYNNAL AR GYFER AELODAU A GRWPIAU GWLEIDYDDOL

4.1 Yr unig sail gyfreithiol ar gyfer darparu gwasanaethau a chyfleusterau cymorth gan y Cyngor (e.e. offer cyfrifiadurol, offer ysgrifennu, teipio, argraffu, llungopïo, ystafelloedd cyfarfod, trafnidiaeth ac ati) i'r Aelodau ydy i'w cynorthwyo i gyflawni eu gwaith fel Aelodau o'r Cyngor. Ac eithrio'r trefniadau a wneir mewn polisïau eraill a gytunwyd gan y Cyngor, rhaid defnyddio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau cynnal hyn at waith y Cyngor yn unig. Ni ddylid byth eu defnyddio mewn cysylltiad â gwaith gwleidyddol neu ymgyrchu ar ran plaid wleidyddol.

5. MYNEDIAD AELODAU I WYBODAETH A DOGFENNAU'R CYNGOR

5.1 Caiff aelodau ofyn i adran am wybodaeth, esboniad neu gyngor ynghylch gwaith yr adran honno y byddai ei hangen yn rhesymol arnynt i'w cynorthwyo yn eu rôl fel aelodau o'r Cyngor. Gall hyn amrywio o gais am wybodaeth gyffredinol am ryw agwedd ar waith yr adran i gais am wybodaeth benodol ar ran etholwr. Dylid cyfeirio'r cyfryw gais i sylw Cyfarwyddwr yr adran neu at Bennaeth y Gwasanaeth priodol yn yr adran dan sylw.

5.2 Mae hawl gyfreithiol aelodau i weld dogfennau'r Cyngor yn deillio'n rhannol drwy statud ac yn rhannol o gyfraith gwlad (penderfyniadau barnwrol).

5.3 Mae gan aelodau yr hawl statudol i weld dogfennau'r Cyngor sy'n cynnwys deunydd yn ymwneud â busnes a drafodir yng nghyfarfod y Cyngor, Pwyllgor, y Bwrdd Gweithredol neu gyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol er mwyn gwneud penderfyniadau gweithredol. Yr un yw'r hawl p'un ai fo aelod yn aelod o'r pwyllgor gwneud penderfyniadau dan sylw ai peidio ac y mae'n cynnwys nid yn unig yr adroddiadau a gyflwynir yn y cyfarfod ond unrhyw bapurau cefndir perthnasol. Nid oes ganddynt yr un hawl i weld dogfennau yn ymwneud ag eitemau penodol a ddynodir yn eitemau eithriedig ar agenda cyfarfod. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth nas cyhoeddir (yn ôl y gyfraith) oherwydd, er enghraifft, eu bod yn ymwneud â neu'n cyfeirio at weithwyr, pobl sy'n byw yn nhai'r cyngor, pobl sy'n gwneud cais am grantiau neu wasanaethau eraill, gofal plant, telerau arfaethedig ar gyfer contract neu drafod contract neu wybodaeth arall sy'n fasnachol sensitif, trafodaethau ynghylch cysylltiadau diwydiannol, cyngor cyfreithiol neu achosion cyfreithiol.

5.4 Mae hawl aelodau o dan gyfraith gwlad yn llawer ehangach ac fe'i seilir ar yr egwyddor bod gan aelod yr hawl *prima facie* i archwilio dogfennau'r Cyngor, cyn belled â bod ei fynediad i'r dogfennau hyn yn rhesymol angenrheidiol er mwyn ei alluogi i gyflawni ei ddyletswydd fel aelod o'r Cyngor. Yr enw cyffredin ar yr egwyddor hon yw egwyddor "yr angen i wybod".

5.5 Mae hawl aelod, mewn achos penodol, i arfer ei hawl o dan gyfraith gwlad yn dibynnu felly ar ei allu i brofi bod "angen i wybod" arno/arni. Yn hyn o beth nid oes gan yr aelod y cennad angenrheidiol i grwydro a darllen dogfennau'r Cyngor. Nid yw chwilfrydedd yn ddigon ar ei ben ei hun. Y cwestiwn hanfodol yw a oes 'angen i wybod' er mwyn i'r aelod fedru gwneud ei (d)dyletswyddau cyhoeddus. Cyfarwyddwr yr adran sy'n berchen ar y ddogfen dan sylw (gyda chyngor gan y Swyddog Monitro) fydd yn penderfynu gyntaf a oes angen gwybod arno/arni. Os bydd dadl, mae'n bosibl y caiff y mater ei gyfeirio at y Cynghorydd Cabinet a'r Aelod(au) o'r Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am swyddogaeth neu ddiben paratoi'r ddogfen, eto gyda chyngor cyfreithiol gan y Swyddog Monitro.

5.6 O dan rai amgylchiadau e.e. os bydd aelod o bwyllgor yn dymuno darllen dogfennau yn ymwneud â swyddogaeth y pwyllgor, cymerir yn ganiataol bod "angen i wybod" ar yr aelod. O dan amgylchiadau eraill (e.e. aelod sy'n dymuno darllen dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol am bersonau eraill) disgwylir fel arfer i'r aelod gynnig cyfiawnhad penodol dros wneud y cyfryw gais.

5.7 Er bod y term "dogfen y Cyngor" yn eang iawn ac yn cynnwys, er enghraifft, pob dogfen a lunnir ym mha bynnag ffordd ag adnoddau'r Cyngor, derbynnir drwy arferiad na fydd ar aelod o un grŵp gwleidyddol "angen i wybod" ac felly ni fydd ganddo'r hawl i ddarllen dogfen sy'n rhan o waith mewnol grŵp gwleidyddol arall.

5.8 Mae cyngor pellach a manylach ynghylch hawl yr aelodau i ddarllen dogfennau'r Cyngor ar gael oddi wrth y Swyddog Monitro.

5.9 Yn olaf, bydd gwybodaeth am y Cyngor a roddir i aelod yn cael ei defnyddio gan yr aelod hwnnw yn unig i'r diben y cynigiwyd y wybodaeth; hynny yw er mwyn galluogi'r aelod i berfformio ei ddyletswydd fel cynghorydd yn unig. Mae Côd Ymddygiad yr Aelodau'n pwysleisio'r pwynt hwn fel a ganlyn:

"Rhaid i aelodau:

(a) peidio â datgelu gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol, heb gydsyniad pendant person a awdurdodir i roi'r cydsyniad hwnnw, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu hynny;

(b) peidio â rhwystro unrhyw berson rhag cael gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith."

6. PERTHNASOEDD RHWNG SWYDDOGION/CADEIRYDDION/ AELODAU O'R BWRDD GWEITHREDOL

(a) Mae'n amlwg yn bwysig bod perthynas waith agos rhwng yr Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol, Cadeiryddion Pwyllgorau a'r Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaethau ac uwch swyddogion eraill yn yr adrannau sy'n paratoi adroddiadau ar gyfer pwyllgorau. Fodd bynnag ni ddylid caniatáu i'r cyfryw berthynas fod mor agos, neu ymddangos mor agos, nes bod amheuaeth ynghylch gallu'r swyddog i ymdrin yn ddiduedd ag aelodau eraill a grwpiau gwleidyddol eraill neu gydag unigolyn neu gorff arall.

(b) Er hwyrach y bydd angen ymgynghori'n gyson gyda'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol neu'r Cadeirydd fel rhan o'r broses o lunio agenda ar gyfer cyfarfod, rhaid sylweddoli hwyrach, o dan rai amgylchiadau, y bydd yn ofynnol cynnwys mater arbennig ar agenda fel rhan o drefn briodol y gwaith. Bydd Cyfarwyddwr wastad yn gwbl gyfrifol am gynnwys adroddiad a gyflwynir yn ei enw. Os na all yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol neu'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr ddod i gytundeb ynghylch cynnwys eitem benodol ar yr agenda neu ynghylch cyflwyno adroddiad penodol, dylid cyfeirio'r mater at y Swyddog Monitro. Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau'n codi pan fydd dyletswydd ar y Prif Weithredwr (yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth y Gwasanaeth Taledig) neu'r Cyfarwyddwr Cyllid (y Swyddog Cyllid statudol) neu'r Swyddog Monitro i gyflwyno adroddiad.

(c) Rhaid cofio bod swyddogion mewn adran yn atebol i'w Cyfarwyddwr ac er y dylai swyddogion geisio cynnig cymorth bob amser i Aelod o'r Bwrdd Gweithredol/Cadeirydd (neu unrhyw Aelod yn wir), wrth wneud hyn, ni ddylent gamu y tu hwnt i ffiniau'r awdurdod a roddwyd iddynt gan y Cyfarwyddwr. Dylid nodi hefyd bod cyfrifoldeb statudol ar y Prif Weithredwr yn rhinwedd ei rôl fel Pennaeth y Gwasanaeth Taledig, i sicrhau bod staff y Cyngor yn cael eu trefnu a'u rheoli'n briodol ac ef felly sy'n gyffredinol gyfrifol am gyfeirio a rheoli pob swyddog.

7. AELODAU A SWYDDOGION YN RHOI CYFRIF

(a) O ran craffu ac adolygu penderfyniadau, yn ogystal ag adolygu dogfennaeth, wrth gyflawni'r swyddogaeth craffu, gall Pwyllgor Craffu ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o'r Bwrdd Gweithredol, Pennaeth y Gwasanaeth Taledig, a/neu unrhyw Brif Swyddog neu Bennaeth Gwasanaeth ddod o'i flaen i egluro mewn perthynas â materion o fewn eu cylch gorchwyl:

i. unrhyw benderfyniad arbennig neu gyfres o benderfyniadau;

ii. i ba raddau y mae'r camau a gymerwyd yn gweithredu polisi'r Cyngor; a/neu

iii. o ran cyflawni'u dyletswyddau.

a dyletswydd y personau hynny yw mynychu os yw hynny'n ofynnol.

(b) b) Lle bo'n ofynnol i unrhyw swyddog fynychu Pwyllgor Craffu o dan y ddarpariaeth hon, bydd Cadeirydd y pwyllgor hwnnw yn hysbysu'r Prif Weithredwr a fydd yn hysbysu'r aelod neu'r swyddog yn ysgrifenedig gan roi o leiaf 15 o ddyddiau gwaith o rybudd o'r cyfarfod y mae'n ofynnol iddo ef/hi ei fynychu. Bydd y rhybudd yn nodi natur yr eitem y mae angen iddo ef/hi fynychu yn ei chylch i roi cyfrif a ph'un a oes angen cynhyrchu unrhyw bapurau ar gyfer y pwyllgor. Lle bydd y cyfrif i'w roi i'r pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchu adroddiad, yna bydd y swyddog dan sylw yn cael 15 o ddyddiau gwaith arall i ganiatáu ar gyfer paratoi'r ddogfennaeth honno.

(c) Lle, mewn amgylchiadau eithriadol, mae'r aelod neu'r swyddog yn methu â mynychu ar y dyddiad dan sylw, yna bydd y Pwyllgor Craffu drwy ymgynghori â'r aelod neu'r swyddog yn trefnu dyddiad cyfleus arall i fynychu. Wrth bennu'r dyddiadau bydd y Prif Weithredwr yn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, salwch neu wyliau sydd wedi'u cynllunio.

(d) Dylid nodi nad yw rôl y Pwyllgor Craffu yn cynnwys y canlynol:-

i. Bod yn wrandawiad disgyblu mewn perthynas â chamau a gymerwyd gan Swyddogion gan taw gwaith y Prif Weithredwr yn unig yw hyn mewn perthynas â'r staff, neu

Ii Bod yn rhyw fath o 'lys apêl' mewn perthynas â phenderfyniadau neu gwynion gan unigolion (Cynghorwyr, Swyddogion neu aelodau o'r cyhoedd) - gan fod gweithdrefnau mewnol eraill ar gael i'r diben hwn - e.e. y weithdrefn gwynion gorfforaethol a gweithdrefnau allanol/statudol e.e. yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol neu apêl i'r Llysoedd.

8. GOHEBIAETH

8.1 Yn arferol, ni ddylai gohebiaeth rhwng aelod unigol a swyddog, gan gynnwys negeseuon e-bost, gael ei chopïo (gan y Swyddog) a'i hanfon at aelod arall, ac eithrio fel y barno Cyfarwyddwr yr Adran unigol yn ddoeth, neu gyda chydsyniad yr aelodau dan sylw, lle bo hynny'n briodol yn ôl trefn briodol y gwaith. O dan amgylchiadau eithriadol pan fo angen anfon copi o'r ohebiaeth at aelod arall, dylid esbonio hynny'n glir wrth yr aelod gwreiddiol. Hynny yw ni ddylid dosbarthu copïau 'cudd' o'r ohebiaeth hon.

8.2 Yn arferol dylid anfon llythyrau swyddogol ar ran y Cyngor yn enw'r swyddog priodol yn hytrach nag enw'r aelod. Hwyrach y bydd yn briodol o dan amgylchiadau eithriadol (ee sylwadau at weinidog y llywodraeth neu ohebiaeth gydag arweinydd awdurdod lleol arall) i anfon llythyr yn enw Arweinydd y Cyngor. Dylai llythyron sydd, er enghraifft, yn creu ymrwymiad, yn cadarnhau neu'n gwadu atebolrwydd neu'n rhoi cyfarwyddiadau ar ran y Cyngor gael eu hanfon bob amser yn enw'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth priodol neu uwch swyddog arall.

CYHOEDDUSRWYDD A'R CYFRYNGAU

9.1 Y Pennaeth Cyfathrebu yn Adran y Prif Weithredwr fydd yn trafod pob cysylltiad â'r wasg ar faterion sy'n ymwneud â'r Cyngor neu waith y Cyngor, yn cynnwys cyhoeddi datganiadau i'r wasg.

9.2 Os bydd aelod yn siarad â'r cyfryngau heb ymgynghori yn gyntaf â'r Arweinydd neu'r Aelod priodol o'r Bwrdd Gweithredol neu Gadeirydd y Pwyllgor a/neu'r Pennaeth Cyfathrebu cymerir wedyn ei fod yn mynegi ei farn bersonol ei hun.

10. PERTHNASOEDD PERSONOL

10.1 Ni ddylai'r un aelod na swyddog ganiatáu i gysylltiad neu berthynas bersonol rhyngddo ag aelod neu swyddog arall effeithio ar y ffordd y bydd yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau swyddogol, ac yn gweithredu neu'n gwneud penderfyniadau ar ran y Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, perthynas deuluol, yn rhannu'r un cartref, neu gysylltiad busnes. Dylai'r aelodau a'r swyddogion ystyried bob amser sut y byddai'r cyfryw berthynas neu gysylltiad yn cael ei (g)weld gan rywun o'r tu allan i'r Cyngor neu gan aelod neu swyddog arall a thrwy hynny osgoi creu argraff o ogwydd neu annhegwch.

10.2 Dylai swyddog sydd â chysylltiad personol neu berthynas ag aelod o'r Cyngor ddatgelu hynny mewn llythyr at ei Brif Swyddog.

10.3 Dylai Aelodau ystyried perthnasoedd neu gysylltiadau personol ag aelodau neu swyddogion eraill wrth benderfynu a oes angen cofrestru neu ddatgelu diddordeb ariannol neu anariannol lle bo hynny'n briodol.

11. GWEITHIO GYDA CHYNGHORWYR WARDIAU

Pa bryd bynnag y bydd y Cyngor yn trefnu cyfarfod cyhoeddus er mwyn trafod mater lleol, dylid anfon gwahoddiad fel mater o drefn at bob aelod lleol sy'n cynrychioli'r ardaloedd hynny o'r Cyngor Sir y mae'r mater yn effeithio arnynt. Felly hefyd, pa bryd bynnag y bydd y Cyngor yn ymgynghori ynghylch materion lleol, dylid hysbysu'r aelodau lleol ar ddechrau'r broses ymgynghori.

12. CYFARWYDDYD PELLACH

Os bydd ar aelodau o'r Cyngor angen cyfarwyddyd pellach ar y materion a nodir yn y protocol hwn neu ar fater tebyg neu gysylltiedig, dylent gysylltu â'r Prif Weithredwr neu'r Swyddog Monitro. Os bydd ar swyddogion angen cyfarwyddyd tebyg dylent gysylltu yn gyntaf a'u rheolwr, a fydd yn ymgynghori â'r uwch reolwyr er mwyn derbyn cyngor fel bo'r angen.